

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 25 Ionawr 2017

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 31 IONAWR 2017** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

5 COFNODION (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2016 (copi ynghlwm).

6 CYMERADWYO CYLLIDEB Y CYNGOR (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar gynigion i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir i osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2017/2018.

7 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR (Tudalennau 23 - 46)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) i fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2016 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017/2018.

8 CYMERADWYO CANOLFAN DDŴR Y RHYL (Tudalennau 47 - 82)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) i gymeradwyo datblygiad "Parc Dŵr ac Atyniad Hamdden y Rhyl".

9 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorwyr Mark Young y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Bod Cyngor Sir Ddinbych yn newid parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Glas i gael eu heithrio rhag talu (parcio am ddim) mewn meysydd parcio a reolir gan Gyngor Sir Ddinbych, ac felly yn trin pobl anabl yn deg ac yn gyfartal yn ein Awdurdod ac ar draws Gogledd Cymru."

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 83 - 86)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Ann Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Win Mullen-James (Is-Gadeirydd)

Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Bill Cowie
Meirick Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans

Jason McLellan
Barry Mellor
Bob Murray
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson

Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alan James
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams

Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Mark Young

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4

Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
05/12/16	Dathlu Darllen gyda'n Gilydd, Menter Mentora Darllen Sir Ddinbych 2016 Celebrating Reading Together, Denbighshire Reading Mentor Initiative 2016	Rhuthun / Ruthin
06/12/16	Gwasanaeth Carolau Dathliad Nadolig y Cadeirydd Chairman's Christmas Celebration Carol Service	Rhuddlan
08/12/16	Ymweliad Cyngor Ysgol Gynradd i Neuadd y Sir Primary School Council Visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
09/12/16	Noson agoriadol Peter Pan Opening Night of Peter Pan	Y Rhyl / Rhyl
14/12/16	Radio Glan Clwyd	Bodelwyddan
18/12/16	Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Conwy Conwy Chairman's Civic Service	Hen Colwyn / Old Colwyn
22/12/16	Digwyddiad Carped Coch Star Wars Star Wars Red Carpet Event	Y Rhyl / Rhyl
15/01/17	Gwasanaeth Eglwysi Ardal Aber-Morfa Aber Morfa Area Church Service	Rhuddlan
18/01/17	Mynychu angladd Cyng Raymond Bartley Attended Cllr Raymond Bartley's funeral	Dinbych / Denbigh
19/01/17	Ymweliad Cyngor Ysgol Gynradd i Neuadd y Sir Primary School Council Visit to County Hall	Rhuthun / Ruthin
19/01/17	Seremoni Ddinasyddiaeth Citizenship Ceremony	Rhuthun / Ruthin
23/01/17	Digwyddiad Ysgolion/Schools event – Owl Encounters - Harry Potter and the Philosopher's Stone	Trefnant & Llanelwy / St. Asaph
24/01/17	Digwyddiad Ysgolion/Schools event – Owl Encounters - Harry Potter and the Philosopher's Stone	Rhuthun/Ruthin & Llanbedr D.C.
25/01/17	Digwyddiad Ysgolion/Schools event – Owl Encounters - Harry Potter and the Philosopher's Stone	Y Rhyl/Rhyl
27/01/17	Mynychu angladd cyn-gynghorydd Glyn Williams Attended former councillor Glyn Williams' funeral	Fflint / Flint

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2016 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Meirick Davies, Stuart Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Alan James, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Swyddog Monitro/ Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

Cyn dechrau'r cyfarfod dywedwyd nad yw'r Cadeirydd, y Cynghorydd Ann Davies, yn gallu mynychu'r cyfarfod ac, yn ei absenoldeb, y byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Win Mullen-James (a elwir yn 'Cadeirydd' o hyn allan), yn cadeirio cyfarfod y Cyngor Llawn.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Joan Butterfield, Ann Davies, Martyn Holland, Colin Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Pat Jones, Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens, Paul Penlington a/ac David Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Bu i'r Cynghorydd Huw Jones ddiolch i bawb am y negeseuon caredig, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei salwch diweddar.

Bu i'r Cadeirydd longyfarch Band Pres Ieuencid Sir Ddinbych am ennill Gwobr Band Pres Ieuencid Gogledd Cymru yn ddiweddar.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2016 a 25 Tachwedd 2016 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd Ann Davies wedi gofyn am gael tynnu sylw at Wobrau Chwaraeon Cymunedol Sir Ddinbych gan fod cymaint o dalent o fewn y sir. Y siaradwr gwadd oedd Mark Colbourne MBE, cyn-seiclwyr tîm paralympaidd Cymru.

Diolchodd y Cynghorydd Brian Blakeley i Siân Davies (Rheolwr Gwyliau a Digwyddiadau) am ei gwaith caled wrth drefnu digwyddiadau, gan gyfeirio at ei digwyddiad diweddaraf, sef Pops Nadolig y Rhyl ddydd Sul 4 Rhagfyr. Casglwyd bron i £1000 ar gyfer plant na fyddent fel arall wedi cael parti nac anrhegion Nadolig.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod yna nifer fawr o swyddogion o fewn y sir yn gwneud gwaith da ac y dylid diolch iddynt hwythau hefyd am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu mynychu.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn ar 18 Hydref 2016.

Materion yn codi:

Tudalen 12 - Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod ar yr Aelodau eisiau gwahodd Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru i Bwyllgor Archwilio. Mae wedi derbyn cadarnhad yn ddiweddar y bydd uwch gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ambiwlans yn mynychu cyfarfod Pwyllgor Archwilio yn y flwyddyn newydd. Nid yw'r dyddiad wedi'i gadarnhau eto.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

6 PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol, y Cynghorydd Huw Jones, adroddiad Grŵp Llywio'r Gymraeg (dosbarthwyd eisoes) er mwyn i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Llywio'r Gymraeg ffurfiol o fewn cyfansoddiad y Cyngor.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno Safonau'r Gymraeg i'r Awdurdod. Mae'r rhan fwyaf o'r safonau wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2016. Mae safonau pellach, mewn perthynas â datblygu polisi, wedi dod i rym ar 1 Hydref 2016.

Mae Sir Ddinbych, sydd ar y cyfan yn sir ddwyieithog a chanddi ddiwylliant a threftadaeth gyfoethog, yn annog dwyieithrwydd wrth ryngweithio o ddydd i ddydd gyda chymunedau, trigolion a staff.

Mae gan y Cyngor Grŵp Llywio'r Gymraeg a gadeirir gan Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr swyddogion, sef

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu.

Yn ystod y drafodaeth i ddilyn, codwyd y materion canlynol:

- Bydd y pwyllgor yn cynnwys 11 cynghorwr gan gynnwys, lle bo'n bosib, yr Aelod Cabinet Arweiniol sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.
- Bydd y pwyllgor yn wleidyddol gytbwys, gyda sedd yr Aelod Cabinet Arweiniol yn cyfri tuag at gyfrifiadau'r cydbwysedd gwleidyddol. Bydd aelodaeth y pwyllgor ar agor i gynghorwyr gweithredol a chynghorwyr anweithredol. Cyfrifoldeb y grwpiau gwleidyddol fydd dyrannu cynghorwyr i'r pwyllgor.
- Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion ac eithrio pan ystyrir materion lle byddai'n rhaid i'r aelod ddatgan cysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu.
- Gan y byddai'r pwyllgor yn bwyllgor cyhoeddus, byddai rhwydd hynt i aelodau o'r cyhoedd, ysgolion a chyrrff eraill fynychu. Byddai'r pwyllgor yn gallu galw ar dystion arbenigol a defnyddwyr gwasanaeth i lywio ei waith.
- Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn bwyllgor ymgynghorol ac na fyddai ganddo bwerau dirprwyol i wneud penderfyniadau oni bai am rai meysydd o'i drafodion ei hun e.e. penodi cadeirydd, cadarnhau cofnodion a.y.b.
- Mae swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wedi addasu cylch gorchwyl Grŵp Llywio'r Gymraeg ac fe gynigir defnyddio'r cylch gorchwyl hwn ar gyfer Pwyllgor Llywio'r Gymraeg.
- Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu yn defnyddio'r strategaeth a bydd yn cael ei gyflwyno i Grŵp Llywio'r Gymraeg ddydd Gwener 9 Rhagfyr 2016.
- Byddai'r pwyllgor yn monitro'r cynnydd wrth weithredu Safonau'r Gymraeg.
- Nod y pwyllgor fydd hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Cefyn Williams.

PHENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:

- Mabwysiadu Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a chymeradwyo ei ychwanegiad at brif strwythur pwyllgor y Cyngor;*
- Cadarnhau cwmpas/cylch gwaith Pwyllgor Llywio'r Gymraeg.*

7 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Arwel Roberts y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

“Tynnwyd fy sylw at y ffaith fod nifer o achosion o ddronau yn cael hedfan o gwmpas Rhuddlan a'r Rhyl. Mae technoleg yn beth bendigedig ond mae'n debyg bod y peiriannau hedfan hyn yn hofran o amgylch tai a gerddi pobl. Mae'r gyfraith yn nodi na cheir eu hedfan dros ardaloedd adeiledig nac o fewn 50 metr o bobl nad oes gennyh reolaeth drostynt.

Gellir prynu'r dronau hyn yn weddol rhad gyda chamerâu arnynt, maent yn fforddiadwy ac felly'n hygyrch i unrhyw un.

Rwy'n credu eu bod wedi'u gwahardd ym Mharciau Brenhinol Llundain a dylid cael parth gwahardd dros holl barciau a thraethau Sir Ddinbych. Gallai trip i'r parc lleol olygu rhai rhieni blin iawn ac nid oes ar drigolion eisiau gweld pobl yn hedfan dronau rheoli o bell dros eu heiddo.

Dylid gwahardd hedfan y dronau hyn dros ardaloedd cyhoeddus Sir Ddinbych.”

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod Gorchymyn Llywio yn yr Awyr 2016 yn nodi'r gyfraith sy'n ymwneud â defnyddio a gweithredu awyrennau. Mae'r diffiniad o awyren sy'n destun y rheoliad hwn yn cynnwys awyrennau bach heb griw, sef unrhyw awyren heb griw, ac eithrio balw'n neu farcud, sydd â màs o ddim mwy na 20kg heb danwydd (h.y. dronau neu awyrennau model).

Mae hefyd yn cynnwys awyrennau gwylidwriaeth bychain heb griw a ddiffinnir fel awyrennau bychain heb griw sydd ag offer gwylid neu gaffael ddata (e.e. dronau gyda chamerâu).

Awgrymodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y dylid cyflwyno adroddiad i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio er mwyn trafod y mater ymhellach.

Mae rheolau gweithredu awyrennau o'r fath yn gofyn bod y gweithredwyr yn gallu gweld yr awyren ac mae rheolau yn bodoli o ran pa mor uchel y gellir eu hedfan ac ymhle. Mae yna hefyd reolau o ran hedfan awyrennau gwylidwriaeth o fewn pellteroedd penodol i dagfeydd neu bobl neu wrth ymyl cerbydau a.y.b.

Mae angen trwydded neu ganiatâd yr Awdurdod Hedfan Sifil i ddefnyddio dronau at ddibenion masnachol.

Yn dilyn trafodaeth:

PENDERFYNWYD bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd / y Swyddog Monitro yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio am y fframwaith rheoleiddio sy'n ymwneud â dronau a gallu'r Cyngor o ran cyflwyno cyfyngiadau pellach.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y bydd Sesiwn Friffio'r Cyngor yn cael ei chynnal cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 31 Ionawr 2017. Testun y sesiwn fydd cymeradwyo Canolfan Ddyfrol y Rhyl. Nid yw dyddiad y sesiwn friffio wedi'i gadarnhau eto, ond bydd yn cael ei chynnal 25, 26

neu 27 Ionawr 2017. Unwaith y cytunir ar ddyddiad, bydd y gwahoddiadau yn cael eu hanfon at yr holl gynghorwyr.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod:	31 Ionawr 2017
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
Awdur yr Adroddiad:	Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Teitl:	Cyllideb 2017/18 – Cynigion Terfynol

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2017/18 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith Setliad Llywodraeth Leol ac ystyried cynigion i osod y gyllideb ar gyfer 2017/18, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2017/18.

Dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r tybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yng ngweithdy'r gyllideb a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016 er mwyn cwblhau cyllideb 2017/18.

Dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 2.75% sy'n ofynnol i gefnogi'r cynigion cyllideb.

4. **Manylion yr Adroddiad**

Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2017/18 ar 21 Rhagfyr ac roedd yn darparu cynnydd o ran arian parod o 0.6%. Roedd y Setliad Dros Dro yn rhoi cynnydd o 0.5%. Mae'r newid rhwng y ddau yn ganlyniad i 'gyfrifoldebau newydd' o amgylch atal digartrefedd (+£156,000) ac addasiadau i'r sail treth o (-£31,000) gan roi newid net rhwng y Setliad Dros Dro a'r Setliad Terfynol o +£125,000. Er bod y Setliad yn darparu ar gyfer cynnydd o ran arian parod, mewn termau real mae'n doriad gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i chwyddiant na phwysau o ran y galw ar wasanaethau. Er mwyn i'r sefyllfa ariannu fod yn niwtral, byddai angen i'r Setliad fod yn tua +4%.

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ei gyllideb ar 20 Rhagfyr ac roedd yn cynnwys nifer o gyhoeddiadau a allai fod yn fuddiol i gynghorau'n ariannol ond, ac eithrio'r cyfrifoldebau ar gyfer atal digartrefedd a amlinellir uchod, nid ydynt yn rhan o'r datganiad ariannol i gynghorau ac felly nid ydynt yn effeithio ar y gyllideb ar gyfer 2017/18. Roedd y cyhoeddiadau hyn yn cynnwys referniw ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (yn debygol o fod ar ffurf grant) a £10 miliwn i gefnogi masnachwyr stryd fawr gyda threthi busnes. Yn ogystal, cyhoeddwyd nifer o feysydd o wariant cyfalaf gan gynnwys cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy (£53.4 miliwn), adfywio (£50 miliwn), effeithlonrwydd ynni (£40 miliwn) a lliniaru llifogydd (£33 miliwn). Unwaith eto, nid oes un o'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn y setliad cyllid i gynghorau er efallai bod yna fudd yn y pen draw drwy gynlluniau cyfalaf unigol.

Y cynnydd cyfartalog i lywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2017/18 yw +0.2%. Mae cynnydd y Cyngor o +0.6% yn caniatáu ar gyfer nifer o ffactorau drwy wahanol fformiwla'u ond hefyd yn adlewyrchu symudiad mewn dangosyddion fel y cyfrif hawlwr budd-daliadau dros 65 oed a nifer y plant mewn teuluoedd di-waith. Ystod y gwerthoedd setliad ar draws Cymru yw +1.1% (Gwynedd) i -0.5% (Powys, Wrecsam a Merthyr Tudful).

Mae'r sefyllfa derfynol yn well nag yr oedd rhagolygon cynllunio wedi awgrymu ond unwaith eto, setliad ariannol un flwyddyn yw hwn ac nid oes unrhyw ffigyrau blaengynllunio dibynadwy wedi eu darparu ar gyfer blynyddoedd i ddod. Gobeithir y bydd hyn yn cael ei ddatrys ddechrau 2017 gan fod y diffyg data setliad ariannol aml-flwyddyn dibynadwy yn llesteirio cynllunio ariannol a phrosesau cyllideb y cyngor.

Mae cynigion cyllideb y cyngor wedi eu hamlinellu yn y dyfyniad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ynghlwm fel **Atodiad 1**. Mae'r naratif isod yn amlinellu rhai o'r materion allweddol. Mae'r pwyntiau canlynol yn parhau i fod fel y maent wedi eu cyflwyno i aelodau yng ngweithdy cyllideb mis Tachwedd:

- Ers 2011 bu addewid gan y gweinidogion i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion. Y mecanwaith ar gyfer hyn oedd awgrymu bod awdurdodau lleol yn cynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r 'grant bloc' referniw i Gymru. Mae'r cyngor bob amser wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn ac mewn gwirionedd wedi rhagori ar y gofyniad dros y cyfnod. Nid yw'r setliad presennol yn cyfeirio o gwbl at yr addewid hwn, fodd bynnag mae cynigion cyllideb y cyngor yn cynnwys cyllid ychwanegol o £1.9 miliwn ar gyfer ysgolion yn 2017/18. Yna mae'n rhaid i ysgolion ymdopi ag unrhyw bwysau ar chwyddiant.
- Mae cynigion cyllideb y cyngor hefyd yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu gofal cymdeithasol ac yn sgil hynny, ariannwyd pwysau o £750,000 yn 2017/18 gyda chynnydd pellach wedi'i ragdybio ar gyfer blynyddoedd i ddod.
- Mae pwysau ar y gyllideb o £300,000 wedi ei gynnwys i ariannu polisi cludiant i'r ysgol y cyngor.
- Cynnydd mewn costau pensiwn a thâl – gan gynnwys effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol a swm yr Ardoll Prentisiaethau hyd at £1.9 miliwn.

- Gan fod y cyllid ar gyfer y Cynllun Cwtogi Treth y Cyngor wedi'i rewi am sawl blwyddyn, mae'n rhaid i'r cyngor ariannu cost y cynnydd mewn Treth y Cyngor a amcangyfrifwyd i fod yn £350,000.
- Mae'r cynigion yn caniatáu £200,000 o fuddsoddiad newydd mewn blaenoriaethau.

Yng ngweithdy mis Tachwedd, roedd sawl ansicrwydd yn parhau ac maent wedi eu cadarnhau ers hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ardoll Y Gwasanaeth Tân - 3.68% o gynnydd sy'n golygu £161,000.
- Chwyddiant ynni – mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos cynnydd o 29% ar gyfartaledd yn 2017/18 gan olygu pwysau ychwanegol o £145,000.
- Premiymau yswiriant – wedi cynyddu o £25,000 yn sgil y cynnydd mewn treth a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref

Mae'r arbedion a gynigiwyd yn parhau fel y rhagwelwyd gyda £902,000 yn cael ei gynnig fel arbedion effeithlonrwydd ar draws pob gwasanaeth a £1.355 miliwn o arbedion PFI / cyfalaf.

Mae'r gyllideb hefyd yn cynnig y defnydd o £2.122 miliwn o gronfeydd a balansau ariannol. Mae hyn yn gynaliadwy yn y tymor byr ac yn rhan o'r strategaeth i gyflawni cyllidebau 2017/18 a 2018/19 ond nid yw'n ddatrysiad tymor hir. Mae'n rhaid i'r defnydd o arian parod gael ei adennill dros flynyddoedd i ddod ond gellir ei ddefnyddio i esmwytho effaith gostyngiadau cyllid mewn modd wedi'i gynllunio.

Lefel y cynnydd mewn Treth y Cyngor a gynigir yw 2.75%. Mae hyn yn unol â rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant am y flwyddyn i ddod ac mae'n debyg o fod yn is na lefel cyfartalog y cynnydd yng Nghymru. Ar ddechrau tymor y cyngor, lefel Treth y Cyngor Sir Ddinbych oedd y drydedd uchaf yng Nghymru. Mae pedair blynedd yn olynol o gynnydd is na'r cyfartaledd wedi newid y sefyllfa honno i fod yn seithfed uchaf yng Nghymru ac efallai'n wythfed erbyn 2017/18. Mewn gweithdy'r gyllideb ym mis Tachwedd, roedd rhywfaint o drafod ynghylch lefel y cynnydd mewn Treth y Cyngor a'r effaith yn sgil hynny ar y gyllideb os bydd lefel cynnydd uwch neu is.

O ystyried yr ystod o bwysau y mae'r cyngor yn ei wynebu, yn arbennig y pwysau parhaus ar gyllidebau gofal cymdeithasol a thrywydd cyffredinol chwyddiant, credir fod cynnydd o 2.75% yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Yn y gweithdy ym mis Tachwedd, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar y posibilrwydd o gynnydd o 2.5%, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu drwy ddefnyddio mwy o arian parod yn 2017/18. Er bod modd cyflawni'r gyfradd is o 2.5%, roedd dwy effaith benodol:

- Colli cyllid gwerth £112,000 yn barhaol i safle sail y cyngor, gan felly gynyddu bwlch y gyllideb yn 2018/19 o'r un swm, tra bod gofal cymdeithasol a phwysau eraill yn parhau i dyfu a bod
- Llai o arian parod ar gael (£112,000) i gefnogi cyllideb 2018/19

Ceir dadansoddiad pellach o effaith cynnydd amrywiol yn nhreth y cyngor yn **Atodiad 2**.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes angen unrhyw arbedion pellach gan wasanaethau y tu hwnt i'r rhai a gytunwyd eisoes o ganlyniad i'r cynigion hyn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Cwblhawyd Asesiad Lles ar gyfer elfen arbedion effeithlonrwydd cynigion y gyllideb ac mae ynghlwm i'r adroddiad hwn. Casgliad yr Asesiad yw bod y cynigion effeithlonrwydd naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral o'u hasesu yn erbyn y saith nod lles.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae proses y gyllideb yn eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Briffio'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Cynhaliwyd gweithdai'r gyllideb gydag aelodau ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Hysbyswyd yr Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn yn adolygu arbedion ac yn asesu eu heffaith ar y cyhoedd. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi'u hystyried gan y Cabinet ac yn cael eu hargymell i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio'n ariannol mewn amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd. Er bod y setliad refeniw ar gyfer 2017/18 yn well na'r hyn yr oedd y cyngor wedi cael ei arwain i gredu y byddai ac mae hyn yn amlwg yn cael ei groesawu, erys diffyg unrhyw arwyddion cynllunio ariannol ystyrion ar gyfer y dyfodol.

Mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol.

Rhagwelir y bydd pwysau ar y gyllideb gofal cymdeithasol yn parhau yn y tymor canolig ac y bydd yn her wrth ddarparu cyllidebau yn y dyfodol.

Mae cynigion y gyllideb yn cynnwys y defnydd o arian parod. Mae hyn yn gynaliadwy yn y tymor byr ond nid yw'n ateb tymor hir. Y cyfan y mae'n gwneud yw prynu amser i'r cyngor esmwytho effaith y gostyngiadau cyllido.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd wedi'i gynllunio ac amserol. Mae rheoli risg proses y gyllideb yn un o ystyriaethau allweddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Final Proposals 2017/18

	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000
Funding				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	139,608	140,474	139,069	137,678
Council Tax	44,954	46,656	48,214	49,821
SSA / Budget Requirement	184,562	187,130	187,283	187,500
Use of Balances	500	2,122	1,378	
Total Funding	185,062	189,252	188,661	187,500
Expenditure				
Base Budget	184,756	185,062	189,252	192,443
Inflation / Pressures:				
Pay	519	519	519	519
Pensions	927	350	350	350
National Insurance	900	-	-	-
Living Wage	50	500	500	500
Price - targeted	58	125	100	100
Price - NSI Energy	125	395	150	150
CTRS / Contingency	320	350	350	350
Fire Levy		161		
Social Services		750	500	500
Transport		300		
Apprenticeship Levy		500		
Schools Protection	1,173	1,246	948	1,075
Schools Demography Adjustment	(320)	656	600	600
Contingency	486			
Other known items:				
Investment in Priorities	250	200	50	50
Transfers into/out of Settlement	1,036	68		
New Responsibilities		327		
EFFICIENCIES:				
Freedoms and Flexibilities	(5,218)			
17/18 Budget Process:				
Capital and Corporate Savings		(1,355)		
1% Service Efficiency Target		(902)	(875)	(875)
Total Expenditure	185,062	189,252	192,443	195,762
Funding Shortfall / (Available)	(0)	(0)	3,783	8,262
Annual increase/(decrease) in shortfall	(0)	0	3,783	4,481
Key Assumptions				
Settlement %	-1.20%	0.62%	-1.00%	-1.00%
Council Tax Increase % Band D	1.50%	2.75%	2.75%	2.75%
Schools Protection	1.85%	1.93%	1.44%	1.61%

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

2017/18 Options	Increase %	Funding Increase £'000	C/Tax Benefit £'000	Net Increase £'000	Budget Impact £'000	Impact on 17/18 £'000	Use of Balances 17/18 £'000	Budget Shortfall 17/18 £'000
Further Savings would need to be identified / approved - Impact on futures years savings requirement	0.90%	405	-101.15	303.44	404.59	-832	2,500	454
	1.00%	450	-112.39	337.16	449.54	-787	2,500	409
	1.10%	494	-123.62	370.87	494.49	-742	2,500	364
	1.20%	539	-134.86	404.59	539.45	-697	2,500	319
	1.30%	584	-146.10	438.30	584.40	-652	2,500	274
	1.40%	629	-157.34	472.02	629.36	-607	2,500	229
	1.50%	674	-168.58	505.73	674.31	-562	2,500	184
	1.60%	719	-179.82	539.45	719.26	-517	2,500	139
	1.70%	764	-191.05	573.16	764.22	-472	2,500	94
1.80%	809	-202.29	606.88	809.17	-427	2,500	49	
Max Use of Balances	1.90%	854	-213.53	640.59	854.13	-382	2,500	4
Using reserves/balances just delays the requirement to make savings. The central case means £337k less savings required in 18/19.	2.00%	899	-224.77	674.31	899.08	-337	2,459	0
	2.10%	944	-236.01	708.03	944.03	-292	2,414	0
	2.20%	989	-247.25	741.74	988.99	-247	2,369	0
	2.30%	1,034	-258.49	775.46	1,033.94	-202	2,324	0
	2.40%	1,079	-269.72	809.17	1,078.90	-157	2,279	0
	2.50%	1,124	-280.96	842.89	1,123.85	-112	2,234	0
	2.60%	1,169	-292.20	876.60	1,168.80	-67	2,189	0
	2.70%	1,214	-303.44	910.32	1,213.76	-22	2,144	0
Central Case	2.75%	1,236	-309.06	927.18	0.00		2,122	0
	3.00%	1,349	-337.16	1,011.47	1,348.62	112	2,010	
	3.50%	1,573	-393.35	1,180.04	1,573.39	337	1,785	
	4.00%	1,798	-449.54	1,348.62	1,798.16	562	1,560	
	4.50%	2,023	-505.73	1,517.20	2,022.93	787	1,335	
	5.00%	2,248	-561.93	1,685.78	2,247.70	1,011	1,111	

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

1% Efficiency Savings 2017/18

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	156
Brief description:	Proposals are all deemed to be genuine efficiencies which involve changes to how we deliver services rather than the level of services we deliver. They are about delivering services more efficiently.
Date Completed:	Version: 0
Completed By:	
Responsible Service:	Finance
Localities affected by the proposal:	Not Applicable,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

Could you do more to make your approach more sustainable?


(2 out of 4 stars)



Actual score: 13/ 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



A prosperous Denbighshire	Positive
A resilient Denbighshire	Positive
A healthier Denbighshire	Neutral
A more equal Denbighshire	Neutral
A Denbighshire of cohesive communities	Neutral
A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language	Neutral
A globally responsible Denbighshire	Neutral

Main conclusions

The Assessment has shown that the identification of genuine efficiency savings have a positive effect on the prosperity and resilience of Denbighshire. However it also shows that by identifying genuine efficiency savings, cuts and reductions to service levels can be minimised which also helps the Council deliver its legal responsibilities and wider corporate ambitions.

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact:	Positive
Justification for Impact:	Efficiencies contribute to robustness of the council's finances which allow it to develop strategies and investment priorities which it would not otherwise be able to afford. Also £346k of the efficiencies take advantage of voluntary staff reductions - this means that the need for any compulsory reduction in jobs is mitigated against.

Positive consequences identified:

More efficient working will always use less resources eg re-mapping green waste collection rounds will use less fuel

Efficiencies contribute to robustness of the council's finances which allow it to develop strategies and investment priorities which it would not otherwise be able to afford

£346k of the efficiencies take advantage of voluntary staff reductions - this means that the need for any compulsory reduction in jobs is mitigated against

Many efficiencies complement and enable individuals to care for their childcare. Many of the reduction in hours etc are to enable individuals to balance their care and work needs

Unintended negative consequences identified:

A minority of efficiencies involve service restructures which may reduce the total number of jobs in the council

Mitigating actions:

The overall approach of the MTFP has hopefully resulted in maximising the positives from the budget process by ensuring that genuine efficiencies are taken first, therefore limiting the number of savings (service cuts) that need to be made (none for 2017/18).

A resilient Denbighshire

Overall Impact:	Positive
Justification for Impact:	A sound medium term financial plan allows the Council to make spending and investment decisions that enable the council to react to external pressures both in the medium to long term and also within the financial year.

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

see previous response

A healthier Denbighshire

Overall Impact:	Neutral
Justification for Impact:	Proposals have little or no direct impact on the vast majority of residents.

Positive consequences identified:

Efficiencies allow the Leisure service to carry on the good work of encouraging participation. The vast majority of staff savings are voluntary - this reduces the need for any stressful compulsory process as well as facilitating the approval of requests for changes to working patterns (eg reduction in hours)

Unintended negative consequences identified:

Service restructures may involve some levels of stress within the staff involved which will need careful management.

Mitigating actions:

N/A

A more equal Denbighshire

Overall Impact:	Neutral
Justification for Impact:	Identification of efficiencies mitigate against the need for compulsory reductions in staff or services.

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

Identification of efficiencies mitigate against the need for compulsory reductions in staff or services.

A Denbighshire of cohesive communities

Overall Impact:	Neutral
Justification for Impact:	Identification of efficiencies mitigate against the need for compulsory reductions in staff or services. Identification of genuine efficiency savings allow for the continued investment in Corporate Priorities, including capacity building work within communities.

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

N/A

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

Overall Impact:	Neutral
Justification for Impact:	Although no direct impact the identification of genuine efficiencies mitigate against the need for compulsory reductions in staff or cuts to service which may impact on services ability to deliver the Welsh language aspirations of the Council and Welsh Government.

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

N/A

A globally responsible Denbighshire

Overall Impact:	Neutral
Justification for Impact:	There is no direct impact however the identification of efficiencies mitigate against the need for compulsory reductions in staff or services. Cuts to services may have involved a reduction in the ability of partner organisations to deliver services.

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

N/A

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cyngor Llawn
Dyddiad y Cyfarfod:	31 Ionawr 2017
Aelod / Swyddog Arweiniol: Cyllid	Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog
Awdur yr Adroddiad:	Dawn Davies, Rheolwr Darpariaeth Gwasanaeth / Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Cynllun Lleihau Treth y Cyngor 2017/18

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Chynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2017.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben ac mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei basio i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddwy set o reoliadau ar 17 Ionawr 2017 ac mae angen mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor newydd a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau 2017 erbyn 31 Ionawr 2017.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Aelodau i fabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2017, o ran blwyddyn ariannol 2017/18.

Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r 3 elfen ddewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.2, yn cael eu parhau yn 2017/18.

4. **Manylion yr adroddiad**

4.1 **Y Cynllun Arfaethedig 2017/18**

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2017/18 fe gytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun diwygiedig arsylwi'r paramedrau canlynol:

- Parhau gydag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawl wyr ar draws Cymru. Mae'r lefel uchaf o gefnogaeth wedi ei osod ar 100%.
- I barhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol (ar yr amod bod costau unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu'n lleol).
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygio'r system Budd-dal Treth y Cyngor blaenorol, tan 2018-19 fel bod y risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gellir parhau i ddarparu cymorth.

Uwchraddio ar gyfer 2017-18

Mae Rheoliadau CTRS 2013 yn cael eu diwygio er mwyn uwchraddio ffigurau ariannol penodol ar gyfer 2017-18 a ddefnyddir i gyfrifo hawl i ostyngiad ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys i gael budd-dal.

Caiff nifer o ffigurau eraill a gynhwysir yn Rheoliadau CTRS 2013 eu diwygio, mae'r rhain yn cynnwys:

- **Lwfansau personol mewn perthynas ag ymgeiswyr oedran gweithio, gofalwyr ac ymgeiswyr anabl.**
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â'r lwfansau hyn wedi cael eu diwygio ac wedi cynyddu yn unol â chostau byw cynyddol. Y confensiwn yw uwchraddio yn unol â ffigur Mynegai Prisiau Defnyddwyr mis Medi o'r flwyddyn flaenorol (sef 1.0% ar gyfer 2017-18). Gan fod Diwygio'r Gyfundrefn Les a Deddf Gwaith wedi rhewi'r lwfansau oedran gweithio rhag uwchraddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol Effaith cynyddu'r lwfansau hyn o fewn CTRS yw na fyddant mwyach yn cael eu halinio â chydannau tebyg ym maes Budd-dal Tai.
- **Lwfansau personol mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n bensiynwr**
Mae'r ffigurau ariannol mewn perthynas â chyfraddau pensiynwyr wedi cael eu diwygio ac yn cyd-fynd â Budd-dal Tai. Mae'r rhain wedi cael eu cyfrifo gyda chymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dilyn Datganiad yr Hydref gan y Canghellor yn 2016, ac wedi cael eu huwchraddio gan wahanol dechnegau. **Er enghraifft, caiff gwarant safonol leiaf y Credyd Pensiwn ei uwchraddio gan enillion, tra bod y Pensiwn Ychwanegol a'r cynyddrannau yn cael eu huwchraddio gan brisiau.**
- **Didyniadau annibynyddion**
Bydd y ffigurau ariannol mewn perthynas â bandiau incwm a didyniadau a wnaed mewn perthynas ag 'annibynyddion' yn cael eu huwchraddio. Os na chaiff diwygiadau eu gwneud, ni fyddai didyniadau priodol yn cael eu gwneud o ddyfarniadau CTRS, gan na fyddai'r trothwyon incwm yn adlewyrchu enillion cyfartalog mwyach, ac ni fyddai'r didyniad yn adlewyrchu cost gyffredinol y dreth gyngor.

Diwygiadau Ychwanegol

Yn ogystal â'r uwchraddio, mae nifer o ddiwygiadau canlyniadol i Reoliadau CTRS 2013 yn ofynnol er mwyn ymgorffori nifer o newidiadau sydd wedi bod yn angenrheidiol oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu manteision cydberthynol:

- Gwneir diwygiadau mewn perthynas â sut y dylai awdurdod lleol gyfrifo incwm wythnosol ymgeisydd i sicrhau, wrth gyfrifo hyn, bod yr awdurdod yn ystyried yr incwm y mae'r ymgeisydd yn disgwyl ei gael, yn ogystal â'r incwm sydd wedi'i gael. Mae hyn yn sicrhau bod y dull i gyfrifo incwm wythnosol yn deg, ac yn adlewyrchu amgylchiadau presennol yr ymgeisydd yn fwy cywir;
- Ar hyn o bryd, ni fydd ymgeisydd sy'n derbyn lwfans gofalwr yn gymwys i dderbyn y premiwm anabledd difrifol wrth benderfynu ar ei swm perthnasol. Ar y llaw arall, gall unigolyn sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gydag elfen gofalwr fod yn gymwys i dderbyn y premiwm anabledd difrifol. Fel y cyfryw, mae diwygiadau yn ofynnol er mwyn sicrhau na fydd ymgeiswyr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gydag elfen gofalwr yn gymwys i gael y premiwm anabledd difrifol mwyach. Mae hyn yn gyson â deddfwriaeth nawdd cymdeithasol rhyng-gysylltiedig eraill; ac
- Wrth benderfynu ar enillion net enillwyr cyflogedig, caiff didyniadau eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw ostyngiadau treth y gall yr ymgeisydd eu derbyn. Gwneir diwygiadau i sicrhau bod yr holl ostyngiadau treth yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar enillion net. Mae hyn yn gyson â deddfwriaeth nawdd cymdeithasol rhyng-gysylltiedig eraill.

4.2 Elfennau dewisol ar gyfer penderfyniad y Cyngor

- a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith os ydych wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos
- b) Disgresiwn i ddiystyru rhan neu'r swm cyfan o Bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw wrth gyfrifo incwm.
- c) Y gallu i ôl-ddyddio, am hyd at 6 mis unrhyw gais dyfarniadau Cymorth Treth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid oedran gweithio fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

4.3 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol ar y cynllun presennol a'r newidiadau posibl, gan ei alluogi i fod yn gost niwtral i Awdurdodau Lleol. Cyflwynwyd sylwadau gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, gan awgrymu newidiadau i'r cynllun.

Ar ôl ystyriaeth briodol, penderfynwyd parhau â'r cynllun fel y mae, gydag unrhyw ddiffyg rhwng y lleihad a roddir a'r grant penodol a dderbynnir, yn cael ei feddu gan yr Awdurdod Lleol.

Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu bod y lefelau cyllid ar gyfer y cynllun i aros ar lefelau 2013/14, a oedd yn creu pwysau cyllidebol yn 2016/17 a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2017/18.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn helpu pobl ddi-amddiffyn, gan sicrhau eu bod yn byw mor annibynnol ag sy'n bosib.
- 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae £9.323 wedi'i nodi yn y setliad ar gyfer Sir Ddinbych i gael Cymorth Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y gwariant presennol yw £9.511 miliwn, os byddai Treth y Cyngor Net yn cynyddu 3.1% (hy cynnydd arfaethedig y cynghorau a lwfans ar gyfer newidiadau i argymhellion eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y bil) mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2017/18 oddeutu £9.843 miliwn. Mae hyn yn rhoi diffyg o tua £520k ar gyfer 2017/18 y mae darpariaeth gyllidebol wedi ei gwneud fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2017/18.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod y cynnig ar gyfer ymestyn y cynllun presennol a ymgynghorwyd arno yn 2012. Nid oes unrhyw newidiadau materol arfaethedig (a dim newidiadau i'r elfennau dewisol), fodd bynnag, mae'n ofyniad cyfreithiol bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor yn flynyddol.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Ddim yn berthnasol gan fod hyn yn ychwanegiad ar y cynllun presennol a ymgynghorwyd arno yn 2012.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun lleihau yn flynyddol. Gan fod cyllid ar gyfer CTRS wedi parhau'n sefydlog ledled Cymru am nifer o flynyddoedd, rhaid i effaith cynnydd Treth y Cyngor ar y cynllun gostwng gael ei ariannu'n lleol. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi eu cynnwys fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2017/18.
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae risgiau i'r Cyngor o beidio mabwysiadu'r cynllun hwn, o ganlyniad i hynny byddai'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu'r cynllun diofyn, a all gynyddu cyfanswm y gost.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

 - Dylid mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.
 - Rheoliadau Cynllun Lleihau Treth y Cyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.
 - Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Cynllun Gofynion Rhagnodedig a Diofyn (Cymru) (Diwygiad) 2017.

Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under section 13A(8) of the Local Government Finance Act 1992, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 No. (W.)

COUNCIL TAX, WALES

**The Council Tax Reduction
Schemes (Prescribed Requirements
and Default Scheme) (Wales)
(Amendment) Regulations 2017**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 (“the Prescribed Requirements Regulations”) and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 (“the Default Scheme Regulations”) made under section 13A(4) and (5) of, and Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992.

The Prescribed Requirements Regulations require each billing authority in Wales to make a scheme specifying the reductions which are to apply to amounts of council tax payable by persons, or classes of persons, whom the authority considers are in financial need. The Prescribed Requirements Regulations also set out the matters that must be included within such a scheme.

The Default Scheme Regulations set out a scheme that will take effect, in respect of dwellings situated in the area of a billing authority, if the authority fails to make its own scheme.

These Regulations amend both the Prescribed Requirements Regulations and the Default Scheme Regulations.

The amendments to the Prescribed Requirements Regulations made by regulations 3(a), 4(a) and (c)(ii), 5(a), 6(a) and (c)(ii) to (e) increase certain figures that are used in calculating whether a person is entitled to a

reduction and the amount of that reduction. The updated figures relate to non-dependant deductions (adjustments made to the maximum amount of reduction a person can receive to take account of adults living in the dwelling who are not dependants of the applicant); and the applicable amount in relation to an application for a reduction (the amount against which an applicant's income is compared in order to determine the amount of reduction to which the applicant is entitled). The same amendments are made in relation to the Default Scheme Regulations by regulations 8, 17(a) and (c)(ii), 18(a) and (c)(ii) to (e).

The amendments to the Prescribed Requirements Regulations made by regulations 3(a)(iii) to (vi), 4(a) and 5(a)(iii) to (vi) also rectify inconsistencies between the figures within the Welsh language and English language versions of those Regulations that were inserted by the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2016. The same amendments are made in relation to the Default Scheme Regulations by regulations 8(c) to (f) and 17(a).

The amendments to the Prescribed Requirements Regulations made in regulations 3(b) and 5(b) and (c) make changes to provisions about when an applicant's average weekly earnings from employment are taken into account. The earnings will be taken into account in the reduction weeks specified, even if the applicant does not actually receive the earnings from their employer in that week. The same amendments are made in relation to the Default Scheme Regulations by regulations 9, 11 and 12.

The amendments to the Prescribed Requirements Regulations made by regulations 3(c) to (e) and 5(d) to (g) update references to "personal reliefs" so as to refer to the relevant provisions of the Income Tax Act 2007. The same amendments are made in relation to the Default Scheme Regulations by regulations 10 and 13 to 16.

The amendments to the Prescribed Requirements Regulations made by regulations 4(b) to (c)(i) and 6(b) and (c)(i) provide that, where a carer for a severely disabled person has an award of universal credit which includes the carer element, that severely disabled person will not be entitled to the severe disability premium when determining that person's applicable amount. The same amendments are made in relation to the Default Scheme Regulations by regulations 17(b) and (c)(i) and 18(b) and (c)(i).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to

the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Finance and Public Services Performance Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Draft Regulations laid before the National Assembly for Wales under section 13A(8) of the Local Government Finance Act 1992, for approval by resolution of the National Assembly for Wales.

DRAFT WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2017 No. (W.)

COUNCIL TAX, WALES

**The Council Tax Reduction
Schemes (Prescribed Requirements
and Default Scheme) (Wales)
(Amendment) Regulations 2017**

Made ***

*Coming into force in accordance with
regulation 1(2)*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by section 13A(4) and (5) of, and paragraphs 2 to 7 of Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992(1).

In accordance with section 13A(8) of that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2017.

(2) These Regulations come into force the day after the day on which they are made.

(3) These Regulations apply in relation to a council tax reduction scheme made for a financial year beginning on or after 1 April 2017.

